



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Datganiad Cydraddoldeb

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb yn ein holl weithgareddau, ac rydym yn anelu at ddarparu amgylchedd heb unrhyw wahaniaethu yn erbyn unrhyw fyfyrwr yn unol â'r 'nodweddion gwarchoddedig' a ddiffinnir yn Neddf Gydraddoldeb 2010. Mae hyn yn cynnwys gwahaniaethu ar sail oedran, gender (gwirioneddol neu ganfyddedig), tueddiadau rhywiol, anabledd, hil, statws priodasol, a chrefydd/cred. Mae'n holl gwrselwyr wedi'u hyfforddi'n drwyadl, ac mae ganddynt brofiad o weithio gyda materion yn ymwneud â, dyweder, tueddiadau rhywiol, hunaniaeth gender, anabledd, hil, ac ethnigrwydd. Cysylltwch â ni os hoffech ragor o wybodaeth.